

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Ifor Dylan Williams, Peter Garlick, Mirain Llwyd Owen, Geraint Strello

Cadeirio: Erddyn Davies

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Dafydd Iwan, Gwyneth Thomas, Emyr Williams, Math Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion Hydref 2017.

Cynnig: Ifor Williams

Eilio: Mirain Llwyd Owen

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Pwyllgor Y Ganolfan

Trefnodd y Cynghorydd Peter Garlick fod swyddog o Gyngor Gwynedd yn ymweld â'r Ganolfan er mwyn trafod grantiau posibl ar gyfer gwaith adnewyddu yn Y Ganolfan. Mae yna grantiau i'w cael, ond mae'n debyg y byddai amrediad ehangach pe byddai'r Ganolfan ym mherchnogaeth Pwyllgor y Ganolfan, neu o dan lês tymor hir iddynt gan y Cyngor Cymuned.

Yn y tymor byr, mae angen darparu gwresogydd newydd.

Bu'r Cynghorydd Peter Garlick chwilio am brisiau, ac fe gafwyd y prisiau canlynol:-

- £8,400 + TAW i osod 3 rheiddiadur tebyg i'r hyn sy'n bodoli eisoes a system bibellau newydd
- Disgwyd pris am 5 gwresogydd newydd i'r neuadd a dau i'r cyntedd
- Disgwyd pris am osod 2 wresogydd newydd a'u cysylltu i'r system nwy

Cytunwyd fod angen sicrhau system wres effeithiol i'r ganolfan ar fyrder, ond bod yn rhaid i'r pris fod yn rhesymol, gan y byddai sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned yn dioddef yn sylweddol pe y gwnaed unrhyw wariant mawr.

Bydd y Cynghorydd Peter Garlick yn edrych am brisiau eraill cyn y cyfarfod nesaf, ac yna yn eu danfon at y Clerc ar gyfer trafodaeth bellach gyda phawb.

4.2 Tacluso Llefydd Parcio Lôn Groes

Credir fod y llefydd parcio yn Lôn Groes wedi cael eu tacluso gan Gyngor Gwynedd, ond bod ansawdd y gwaith yn amrywio. Mae'n debyg fod hyn oherwydd ei bod hi'n anodd cwblhau'r gwaith pan fo ceir wedi eu parcio yno, ac amhosibl clirio a thorri popeth heb fod y llefydd parcio yn wag.

4.3 Enwau Ffyrdd Llanfaglan

Cafwyd ateb gannegyddol gan yr O.S.. Bydd y Cynghorydd Ifor Williams yn ceisio gair gyda chynrychiolydd yr O.S. yn lleol.

4.4 Taliad i Gyngor Gwynedd am etholiad 2017 - £247

Mae gan Gyngor Gwynedd bwer dan Adran 35 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i godi tâl rhesymol ar gyfer gweinyddu etholiadau. Mae hyn boed yna etholiad ai peidio. Yn achos Bontnewydd, ni chafwyd etholiad, ond serch hynny gwnaethpwyd gwaith gweinyddol o ddsbarthu Rhybudd, ffurflenni enwebu a choladau a gwirio'r enwebiadau.

Cytunwyd bod yn rhaid gwneud y taliad.

4.5 Problemau Traffig Llanfaglan

Mae Gan Bwyll wedi trosglwyddo'r mater i'r Heddlu lleol. Cafodd y Cynghorydd Ifor Williams a Peter Garlick gyfarfod gyda'r SCCH lleol, ac mae'n bwriadau trafod y mater ymhellach gyda'i Arolygydd.

Cafwyd ateb gan Gyngor Gwynedd yn dweud nad oeddynt am gymeradwyo gosod cyflymder o 30 mya o Fryn Seiont at Saron, oherwydd o ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, dim ond mewn ardaloedd pentrefol adeiledig y dylid gosod cyfyngiad cyflymder. Gan nad oes ardaloedd pentrefol adeiledig rhwng Bryn Seiont a Llanfaglan a Llanfaglan a Saron, nid ydynt yn dod o fewn y canllawiau.

Cafwyd trafodaeth ble y cytunwyd fod y ffordd yn amlwg yn beryglus, a bod synnwyr cyffredin yn teilyngu gosod cyflymder ar hyd yr holl ffordd, ac felly bod rheswm da dros gwestiynu ymhellach a/neu beidio â dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd unwaith eto er mwyn pwysleisio'r pwysigrwydd o gael cyfyngiad cyflymder, a gofyn i swyddog o Gyngor Gwynedd fynychu cyfarfod mis Chwefror fel y gallesid cael trafodaeth bellach ar y mater.

4.6 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Gobeithir y bydd y gwaith ar y ffordd osgoi yn dechrau yng Ngwanwyn 2018. Er gwaethaf adroddiadau yn y wasg am oedi pellachi'r ffordd osgoi, disgwylir i'r gwaith ddechrau yn y Gwanwyn.

4.7 Diffibriliwr

Llwyddodd y Cynghorydd Peter Garlick i godi'r holl arian angenrheidiol er mwyn lleoli diffibriliwr yn y ciosg dros y ffordd i'r Newborough Arms. Cafodd gefnogaeth ariannol hael gan amrywiol funesau lleol. Byddi diffibriliwr yn cael ei osod yn fuan.

Cytunwyd y byddai'n syniad da cael sesiwn hyfforddi ar gyfer preswylwyr dynodedig ym Montnewydd wedi i'r diffibriliwr gael ei roi yn ei le. Er bod cyfarwyddiadau yn golygu y gellir defnyddio'r diffibriliwr heb hyfforddiant, byddai hyfforddiant lleol yn syniad da. Gellir darparu hyfforddiant i tua 10 o bobl am gyfanswm o £175.00.

4.8 Caniatau parcio di-amod dros y ffordd i'r hen Swyddfa Bost, Bontnewydd.

Mae Sian Gwenllian A.C. wedi ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn gofyn fyddai'n bosibl codi'r amod parcio ar y cilfannau sydd dros y ffordd i'r hen Swyddfa Bost ym Montnewydd, h.y. ar ochr dde y briffordd wrth ddod o gyfeiriad Caethro tuag at gylchfan Bontnewydd.

Mae'r amod presennol yn gwahardd parcio am fwy nag awr rhwng 9 a 5, ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Y Cyngor Cymuned ofynnodd am y cyfyngiad yma rai blynyddoedd yn ôl oherwydd fod ceir yn cae eu parcio i'w gwerthu yno.

4.9 Parcio ar y pafin o flaen Capel Siloam Bontnewydd

Cafwyd cwyn gan breswylwr lleol fod ceir a faniau yn parcio ar y palmant o flaen capel Siloam sy'n golygu fod yn rhaid i'r rhai sy'n cerdded ar y palmant gamu allan i'r lôn.

Cafodd y Cynghorydd Peter Garlick sgwrs gyda'r rhai sy' parcio yno, a'u dadl hwy oedd fod y cerbydau yn cael eu parcio mor agos i'r lôn â phosibl er mwyn gadael cyn gymaint o'r palmant rhwng wal y capel a'r cerbyd yn rhydd. Yn eu barn hwy roedd digon o le i basio rhwng wal y capel a'r cerbydau gyda pram, os oedd y cerbydau wedi eu parcio yn y ffordd yma. Wrth i waith adeiladu ar y capel orffen, byddai'r parcio ar y palmant yn lleihau.

Cytunwyd fod y sefyllfa'n dderbyniol cyn belled ag y bod yna le i gerdded rhwng wal y Capel a'r cerbydau, ac fe benderfynwyd monitro'r sefyllfa amgylch er mwyn gweld a fyddai yna gwyno pellach.

4.10 Ailgylchu yng Ngwynedd

Bydd Steffan Jones, Uwch Reolwr Gwastraff Cyngor Gwynedd yn mynychu cyfarfod Rhagfyr er mwyn rhoi cyflwyniad ar brosesau ailgylchu Cyngor Gwynedd.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Hydref 2017

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Costau postio £2.24

5.3 Balans yn y Banc 2 Tachwedd 2017- £20,293.09

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais Cynllunio C17/096/19/LL

Cais ôl-weithredol i gadw caffi, adeilad storio amaethyddol, amrwyiol fân ddatblygiadau a thoiledau arfaethedig.

Gypsy Wood, Bontnewydd LL55 2YA

Dim gwrthwynebiad

7. GOHEBIAETH

Dim

8. MATERION ERAILL

8.1 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru – ymgynghoriad ar y canllaw ar gynnal arolygon cymunedol

Mae'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar ganllaw a ddefnyddir wrth gynnal arolygon cymunedol. Penderfynwyd peidio ag ymatebi'r ymgynghoriad hwn.

8.2 Adolygiad o'r Sectorau Cyngorau Cymuned a Thref – casglu barn Cyngorau Cymuned

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu barn ar waith a phwerau Cyngorau Cymuned a Thref. Gofynnir pedwar cwestiwn penodol, a bwriedir eu trafod yng nghyfarfod Rhagfyr

8.3 Adolygiad 2018 o Etholaethau seneddol yng Nghymru – Cynigion Diwygiedig

Mae'r Comisiwn Ffiniau wedi diwygio'r adolygiad cyntaf o ffiniau etholiadol yng Nghymru. Gofynnir am farn ar y cynnig diwygiedig erbyn 11 Rhagfyr. Bydd y Clerc yn danfon manylion ar gyfer trafodaeth cyn y cyfarfod nesaf.

8.4 Lôn Plas Llanfaglan

Adroddodd y Cynghorydd Erddyn Davies fod Cyngor Gwynedd wedi trwsio hanner y ffordd o Lanfaglan hyd at Blas Llanfaglan. Mae tua hanner hyd y ffos wedi ei gwneud, ac felly mae angen gofyn i Gyngor Gwynedd.

8.5 Pont Reilffordd Lôn Eifion

Gofynnodd y Cynghorydd Geraint Strello a fyddai'n bosibl tacluso'r tyfiant sy'n tyfu ar y bont. Cyngor Gwynedd sydd berchen y bont ac awgrymwyd y byddai hi werth ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a gofyn a allasent ofyn am gymorth gan y rhai sydd yn gwneud gwaith cymunedol o dan ofal y Gwasanaeth Prawf.

8.6 Y Lôn o Fontnewydd i Lanfaglan

Mynegodd y Cynghorydd Geraint Strello yr angne i sicrhau fod y ffosydd rhwng Cae Gwynedd a Phont sling, ar y ffordd rhwng Botnewydd a Llanfaglan yn cael eu clirio cyn iddi ddechrau glawio'n drwm. Mae angen sicrhau fod y pibelli sy'n cyflenwo'r ffosydd yn cael eu cadw'n glir o ddail.

8.7 Glanhau o gylchfan Bontnewydd hyd at Blas Dinas

Adroddodd y Cynghorydd Peter Garlick fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn brysur yn glanhau'r palmentydd a thyfiant o gylchfan Bontnewydd hyd at Blas Dinas. Bu dau griw yno yn brysur am nifer o ddiwrnodau, a gwerthfwarogir hyn.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7 Rhagfyr am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

